## Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Safonau Marchnata Cig Dofednod Maes (Diwygio) (Cymru) 2025

Mae'r Memorandwm Esboniadol hwn wedi cael ei baratoi gan yr Is-adran Fwyd ar gyfer ei osod gerbron Senedd Cymru ar y cyd â’r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

### Datganiad Ysgrifennydd y Cabinet

Yn fy marn i, mae’r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Safonau Marchnata Cig Dofednod Maes (Diwygio) (Cymru) 2025. Rwy’n fodlon bod y manteision yn cyfiawnhau’r costau posibl.

**Huw Irranca-Davies AS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**

30 Medi 2025

**RHAN 1**

## 1. Disgrifiad

1.1 Mae'r offeryn statudol hwn yn diwygio'r safonau presennol ar gyfer marchnata cig dofednod maes i ganiatáu i gig dofednod maes gael ei farchnata o dan y disgrifiad hwnnw pan osodir mesurau i orfodi cadw adar o dan do, ni waeth am faint y maent yn cael eu rhwystro rhag cael mynd i fannau awyr agored.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2.1 Dim

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

3.1 Mae'r offeryn yn diwygio deddfwriaeth yr UE a gymathwyd a gafodd ei chadw o fewn cyfraith ddomestig ar ôl 1 Ionawr 2021 pan ddaeth Cyfnod Pontio'r UE i ben:

- O dan Atodiad 5 i Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 543/2008, pan fydd mesurau'n cael eu mabwysiadu sy'n ei gwneud yn ofynnol rhwystro ieir rhag mynd i fannau awyr agored er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd ac anifeiliaid, caiff cig dofednod barhau i gael ei farchnata o dan label 'cig maes' am gyfnod didor na chaiff fod yn fwy na 12 wythnos.
- Bydd yr offeryn hwn yn dileu'r terfyn presennol ar hyd y rhanddirymiad er mwyn medru parhau i farchnata cig dofednod o dan y disgrifiad 'cig maes', tra bydd unrhyw fesurau i orfodi cadw adar o dan do i ddiogelu iechyd y cyhoedd ac iechyd anifeiliaid, ni waeth beth yw hyd y cyfnod hwnnw.

3.2 Mae'r Gorchymyn hwn wedi ei wneud drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 34(1) a 50(3) o Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 ("Deddf 2023").

3.3 Mae adran 34(1) o Ddeddf 2023 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau ynghylch *y 'safonau y mae'n rhaid i gynhyrchion amaethyddol penodol gydymffurfio â nhw pan gânt eu marchnata yng Nghymru'.* Mae Atodlen 1 i Ddeddf 2023 yn rhestru'r cynhyrchion sy'n cael eu hystyried yn 'gynhyrchion amaethyddol', gan gyfeirio at Reoliad (EU) Rhif 1308/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n sefydlu cyd-drefniadaeth y marchnadoedd mewn cynhyrchion amaethyddol ('y

Rheoliad CMO'). Mae paragraff 1 i Atodlen 1 o Ddeddf 2023 yn nodi bod cig dofednod yn 'gynhyrchion amaethyddol'.

3.4 Mae adran 50(3) o Ddeddf 2023 (fel y'i darllenir gydag adran 5 o Ddeddf Cyfraith yr UE a Gedwir (Dirymu a Diwygio) 2023) yn cadarnhau bod rheoliadau a wneir o dan Ddeddf 2023 yn gallu diwygio deddfwriaeth uniongyrchol a gymathwyd.

3.5 Mae adran 50(6) yn cadarnhau y bydd rheoliad sydd wedi'i wneud drwy arfer pwerau a nodir yn adran 34(1) yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol. O'r herwydd, bydd angen i'r Senedd gymeradwyo'r rheoliadau hyn cyn iddynt gael eu gwneud.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

4.1 Pwrpas yr Offeryn Statudol hwn yw caniatáu i gig dofednod maes gael ei farchnata o dan y disgrifiad hwnnw pan osodir mesurau sy'n gorfodi cadw adar o dan do, ni waeth am faint y maent yn cael eu rhwystro rhag cael mynd i fannau awyr agored.

4.2 Yng Nghymru bu achosion o Ffliw Adar (AI) yn y gorffennol a arweiniodd at roi mesurau gorfodi ar waith i gadw dofednod maes o dan do yn hwy na 12 wythnos terfyn amser y rhanddirymiad, hynny yn ystod gaeaf Blwyddyn 2021–22 (am 22 wythnos) a Blwyddyn 2022–23 (am 19 wythnos). Ar ôl y cyfnodau hyn nid oedd hawl marchnata cig dofednod maes fel cig maes a bu'n rhaid ei labelu'n gig dofednod sgubor. Bydd yr offeryn hwn yn sicrhau nad yw cynhyrchwyr dofednod maes yn cael eu cosbi am gydymffurfio â mesurau sy'n gorfodi cadw adar o dan do a roddir ar waith o dan gyfarwyddyd y Prif Swyddog Milfeddygol i ddiogelu lles adar ac iechyd y cyhoedd.

4.3 Amcangyfrifir bod y Deyrnas Unedig (DU) tua 60-75%[1] yn hunangynhaliol o ran cig dofednod. Yng Nghymru, cynhyrchu maes sydd fwyaf cyffredin, gyda thua 90.7%[2] o gynhyrchwyr wyau yn gweithredu o dan safonau cynhyrchu maes, ac mae'n debygol bod cyfran yr un mor uchel o gynhyrchwyr cig dofednod yn gynhyrchwyr maes. Mae Cymru'n cynhyrchu cyfran sylweddol o gig dofednod maes y DU, gyda busnesau o Gymru yn gweithredu'n ddi-fwlch ar draws y ffiniau. Mae llawer o gig dofednod Cymru yn cael ei anfon i gyfleusterau prosesu yn Lloegr, sy'n adlewyrchu masnach ryng-ranbarthol gref.

4.4 O'r Undeb Ewropeaidd (UE) y daw'r rhan fwyaf o gig dofednod a fewnforir i'r DU, gyda llawer ohono'n dod trwy Ogledd Iwerddon. Mae

[1] Adroddiad Diogelwch Bwyd y Deyrnas Unedig: Ffynonellau Cyflenwi Bwyd 2024
[2] F&D Cymru - Trosolwg o Is-sefydliadau Cymreig - Adroddiad Brookdale (2022)

tua 80%[3] o allforion cig dofednod y DU yn mynd i'r UE, er bod y ffigwr hwn wedi gostwng ers Brexit oherwydd cynnydd yn y rhwystrau masnachu. Ym mis Mai 2025, cytunodd y DU a'r UE ar drefniant cyfwerthedd milfeddygol (SPS), gan alluogi masnach lyfnach trwy gydnabod safonau diogelwch bwyd ac iechyd anifeiliaid ei gilydd. Mae'r penderfyniad hwn yn adlewyrchu'r ffaith fod deddfwriaeth y ddwy ochr yn dal i fod yn debyg.

4.5 Gwnaeth yr UE, a thrwy hynny Ogledd Iwerddon (yn unol â Fframwaith Windsor), ddiwygio deddfwriaeth safonau marchnata cig dofednod yn 2023. Os rhoddir mesurau ar waith sy'n gorfodi cadw adar o dan do, bydd cig dofednod yn cael ei werthu o dan y disgrifiad cig maes ni waeth am faint y mae'r ieir wedi cael eu cadw o dan do, gan ddileu'r terfyn amser o 12 wythnos. Gosododd Defra y newid hwn i'r rheoliadau ar 1 Gorffennaf 2025 i Loegr allu dileu'r rhanddirymiad o 12 wythnos ar gig dofednod maes. Mae Llywodraeth yr Alban yn gweithio tuag at amserlen debyg ac yn anelu at ei osod yn fuan.

4.6 Pe bai polisi Cymru yn anghyson â gweddill y DU a'r UE, byddai hyn yn ychwanegu cymhlethdod a chost, gan o bosib sbarduno prisiau uwch a phrinder. Byddai hyn yn effeithio ar ddefnyddwyr ac ar broffidioldeb a hyfywedd busnesau Cymru sy'n buddsoddi mewn cynhyrchu dofednod maes.

4.7 Mae'r offeryn hwn yn sicrhau y gall Cymru sicrhau cydraddoldeb â gweddill y DU a'r UE. Heb eu cysoni, Cymru fyddai'r unig wlad yn y DU lle byddai gofyn newid labeli os eir heibio terfyn amser y rhanddirymiad, gan roi cynhyrchwyr Cymru dan anfantais gystadleuol.

4.8 Mae achosion o ffliw adar yn debygol o gynyddu yn ystod tywydd oerach. Yn ystod hydref-gaeaf 2024–25, cadarnhawyd nifer o achosion o Ffliw Adar Pathogenig Iawn (HPAI), a chafodd gweithgareddau rheoli clefydau a pharthau gwyliadwriaeth eu datgan yn Lloegr o fis Tachwedd 2024, ac yn fwy diweddar yn Angus, yr Alban, ym mis Ionawr 2025. Er nad oes unrhyw achosion wedi bod yng Nghymru hyd yn hyn y tymor hwn, pe bai mesurau sy'n gorfodi cadw dofednod dan do yn cael eu cyflwyno, byddai cyfnod y rhanddirymiad presennol yn caniatáu i gig dofednod maes gael ei farchnata am 12 wythnos heb orfod newid labeli a phecynnau. Byddai unrhyw oedi cyn dod â'r offeryn hwn i rym yn cael effaith negyddol ar fusnesau, yn enwedig gan y bydd y newidiadau a ddaw i rym yn Lloegr ym mis Rhagfyr 2025, yn creu anghysondeb rhwng y ddwy wlad ac yn amharu ar y gadwyn gyflenwi.

[3] Amaethyddiaeth yn y Deyrnas Unedig 2024 (Cyfrifiad – Allforion i'r UE (1,669) wedi'u rhannu gan gyfanswm allforion y DU (2,127) X 100 = 78.5% wedi'i symleiddio)

4.9 Hefyd, pe na bai'r Offeryn Statudol yn cael ei weithredu o fewn yr amserlen arfaethedig a bod achos o ffliw adar yn arwain at fesurau sy'n gorfodi cadw adar o dan do am gyfnod hwy na therfyn 12 wythnos y rhanddirymiad, yna bydda'n rhaid israddio cig dofednod maes Cymru i statws cig sgubor. Nodwyd yn ystod yr ymgynghoriad y gallai proseswyr yn Lloegr wrthod cig dofednod o Gymru er mwyn osgoi y cymhlethdod o ail-labelu ac ailbecynnu. Byddai hyn yn arwain at ganlyniadau ariannol sylweddol i fusnesau Cymru ac effeithiau ar enw da Llywodraeth Cymru.

## 5. Cysylltu â Rhanddeiliaid

Cynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol i geisio barn ar y cynnig i ddileu cyfnod y rhanddirymiad o 12 wythnos. Cafodd arolwg o ddefnyddwyr ei gyhoeddi i ystyried sut orau i roi gwybodaeth i ddefnyddwyr pan fydd mesurau sy'n gorfodi cadw adar dan do yn cael eu rhoi ar waith.

5.1 Ymgynghori ffurfiol

Gan fod brys am y newidiadau hyn, cynhaliwyd ymgynghoriad dros gyfnod byrrach o 6 wythnos rhwng 29 Gorffennaf a 9 Medi 2024. Rhoddai hynny amser i ddod â'r rheoliadau i rym pe ceid achosion o ffliw'r adar ddiwedd 2024 neu ddechrau 2025, gan ofyn am fesurau i gadw adar dan do.

Roedd yr ymgynghoriad yn holi barn am y newidiadau a oedd yn cael eu cynnig i'r gyfraith, gan ragweld yr effeithiau ar gynhyrchwyr, proseswyr, manwerthwyr, mewnforwyr, allforwyr a defnyddwyr cig dofednod a sefydliadau sydd â budd yn y diwydiant cig dofednod. Cafodd ei gyhoeddi ar wahanol blatfformau a chafodd rhanddeiliaid y diwydiant eu gwahodd i gyfrannu.

Derbyniwyd deugain o ymatebion, yn bennaf gan y diwydiant cig dofednod ac wyau: cynhyrchwyr, proseswyr, manwerthwyr, mewnforwyr, allforwyr, a chymdeithasau masnach y sector. Cafodd y newid a gynigiwyd gefnogaeth gref, gydag 89% o'r ymatebwyr yn cefnogi dileu terfyn 12 wythnos y rhanddirymiad yng Nghymru ar gyfer cig dofednod maes. Yn ogystal, cytunodd 94% y dylai polisi Cymru fod yn gyson â pholisi gwledydd eraill y DU. Dywedodd chwarter yr ymatebwyr eu bod yn poeni y gallai newid labeli cynnyrch maes ddrysu defnyddwyr. Ymhlith yr awgrymiadau a gafwyd i leddfu pryderon oedd darparu arwyddion ychwanegol yn y mannau gwerthu. Tynnodd sawl ymatebydd sylw at natur gymhleth a rhyng-gysylltiedig cadwyn gyflenwi cig dofednod y DU a chanlyniadau posibl camaliniad rhwng gweithrediadau a defnyddwyr.

Mae'r dogfennau ymgynghori a chrynodeb o'r ymatebion ar gael yn: Wyau Maes a Safonau Marchnata Cig Dofednod [HTML] | LLYW.CYMRU

5.2 Arolwg o Ddefnyddwyr

Cafodd Beaufort eu comisiynu i asesu trwy eu Harolwg Omnibws Cymru effaith y newidiadau a gynigir i labeli cig dofednod maes ar ddefnyddwyr Cymru, gan ymchwilio i lefel y gefnogaeth, y pryderon neu'r difaterwch.

Cynhaliwyd yr arolwg rhwng 3–23 Mehefin 2024 gan holi cynrychiolaeth o oedolion Cymru 16 oed a hŷn. O'r 1,000 o holwyd, roedd 75% o blaid cadw ieir maes a dofednod eraill o dan do yn ystod achosion o ffliw'r adar. Ar ôl esbonio wrthynt y gallai cig yr adar hyn barhau i gael ei werthu fel cig maes am gyfnod, heb ei ail-labelu neu ei ail-becynnu, roedd 60% o'r farn bod hyn yn dderbyniol. Roedd bron i hanner (49%) o blaid bod gan Gymru yr un polisi â gwledydd eraill y DU a'r UE. Roedd 27% yn erbyn a 23% yn ansicr.

**Mae rhagor o fanylion ar gael yn yr Asesiad o Effaith y Rheoliadau yn Adran 2.**

Mae'r Arolwg o Ddefnyddwyr ar gael yn: Arolwg Wyau Maes a Chig Dofednod | LLYW. CYMRU

## Rhan 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

### 6 Cyflwyniad

6.1 Mae'r adran hon yn Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA) ar gyfer y diwygiadau arfaethedig i ddeddfwriaeth a fydd yn dileu'r terfyn amser ar y rhanddirymiad, ac yn caniatáu i gig dofednod maes gael ei farchnata fel cig maes pan osodir mesurau i orfodi cadw adar o dan do.

6.2 Bydd yr RIA hwn yn rhoi asesiad i Weinidogion Cymru o gostau a manteision tebygol yr offeryn, ac mae'n seiliedig ar yr egwyddorion a'r canllawiau a nodir yng Nghod Asesu Effaith Rheoleiddiol Gweinidogion Cymru ar gyfer is-ddeddfwriaeth.

6.3 Mae'r canfyddiadau a'r amcangyfrifon a gyflwynir yn yr RIA hwn yn ddangosol ac yn seiliedig ar yr wybodaeth a oedd ar gael adeg y dadansoddi. O gofio cysylltiadau cryf cadwyni cyflenwi cig dofednod maes Cymru a gweddill y DU, mae llawer o'r ffigurau sydd wedi'u defnyddio ar gyfer y DU gyfan. Defnyddir data penodol i Gymru pan fydd hynny'n berthnasol ac yn briodol. Mae'r RIA yn dilyn methodoleg debyg i'r hyn a ddefnyddiwyd gan DEFRA yn eu dadansoddiad hwy.

### 7 Trosolwg o'r Polisi

7.1 Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru'n ystyried eu cymryd a pham?

Mae'r mesurau sy'n gorfodi cadw adar o dan do wedi cael eu rhoi ar waith sawl gwaith yn y blynyddoedd diwethaf fel rhan allweddol o'r strategaeth i reoli Clefydau Adar. O dan y rheoliadau safonol presennol ar gyfer marchnata cig dofednod maes, sydd wedi'u cynnwys yn neddfwriaeth yr UE a ddargedwir (REUL), gellir parhau i farchnata cig dofednod maes fel cig maes yn ystod rhanddirymiad o 12 wythnos. Ar ôl y cyfnod hwn, rhaid ei ail-labelu a'i werthu o dan y disgrifiad cig dofednod safonol. Yn ystod y ddau achos diwethaf o glefyd, aed heibio cyfnod y rhanddirymiad o 12 wythnos, ac o ganlyniad bu'n rhaid labelu cig dofednod maes yn gig dofednod safonol am chwe wythnos yn ystod yr achos yn 2020–21 ac am dair wythnos yn ystod yr achos yn 2022–23.

Mae'r Undeb Ewropeaidd eisoes wedi newid ei safonau marchnata cig dofednod er mwyn iddyn nhw allu gwerthu eu cig dofednod maes fel cig maes, ni waeth pa mor hir y gorfodwyd cadw ieir dan do, ac mae hyn yn cynnwys Gogledd Iwerddon o dan Fframwaith Windsor. Gallai hyn felly roi cynhyrchwyr cig dofednod yng Nghymru o dan anfantais gystadleuol, os yw'n ofynnol i'w chig dofednod maes gael ei labelu'n gig safonol os eir heibio cyfnod y rhanddirymiad. Yn enwedig pan nad yw'n ofynnol i gig dofednod o wledydd eraill y DU neu a fewnforir o'r UE a Gogledd Iwerddon wneud hynny. Gan fod hwn yn fater datganoledig, rhaid i Gymru benderfynu

a yw am wneud yr un peth, gyda Lloegr wedi gosod ei OS a Gweinyddiaeth yr Alban ar fin gwneud hynny.

Os na fydd Cymru'n mabwysiadu mesurau tebyg i weddill y DU a'r UE, gallai cynhyrchwyr Cymru wynebu anfanteision sylweddol, gan arwain at effeithiau negyddol hirdymor ar y diwydiant cig dofednod yng Nghymru. Mae'r diwydiant wedi dweud bod heriau fel costau cynhyrchu cynyddol, yr argyfwng costau byw a phrinder llafur yn dwysáu’r pryderon hyn. Yn ogystal, telir pris premiwm am gig dofednod maes oherwydd y safonau lles uwch. Tra bydd mesurau sy'n gorfodi cadw adar o dan do, mae cynhyrchwyr nid yn unig yn ysgwyddo'r gost ychwanegol o gynnal systemau cig dofednod maes er eu bod yn cadw eu hadar dan do, maent hefyd yn colli'r premiwm a delir am gig dofednod maes pan fydd gofyn iddynt ail-labelu eu cig dofednod yn gig safonol.

Byddai'r offeryn hwn yn sicrhau nad yw cynhyrchwyr cig dofednod maes yn cael eu cosbi am gydymffurfio â mesurau sy'n eu gorfodi i gadw adar o dan do, drwy ganiatáu i gig dofednod maes gael ei farchnata fel cig maes, ni waeth pa mor hir mae'r ieir wedi cael eu cadw o dan do. Byddai hyn yn helpu cynhyrchwyr i adennill eu costau ac yn lleihau'r tebygolrwydd y bydd cig dofednod maes o wledydd eraill y DU neu sy'n cael ei fewnforio yn cael ei ddefnyddio yn lle cig dofednod o Gymru. Byddai'r offeryn hwn yn cefnogi hyfywedd hirdymor y diwydiant cig dofednod maes yng Nghymru.

## 8 Opsiynau

**Opsiwn 1** – Gwneud Dim. Mae pryderon wedi cael eu mynegi y gallai newid y polisi wynebu gwrthwynebiad gan ddefnyddwyr neu greu pryder sylweddol ymhlith y cyhoedd. Un broblem yw'r posibilrwydd y gallai dileu'r rhanddirymiad arwain at gamddealltwriaeth ymhlith defnyddwyr. Yn benodol, mae risg y gallai cig sy'n cael ei farchnata fel cig dofednod "maes" gamarwain defnyddwyr pan fydd gofyn cadw adar dan do. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod llawer o ieir bwyta (wedi'u magu ar gyfer cig) yn cael eu lladd cyn eu bod yn 12 wythnos oed - a rhwng 5 a 7 wythnos yn aml mewn systemau cynhyrchu dwys. O ganlyniad, yn ystod gorchymyn i'w cadw dan do, efallai na fyddai'r adar hyn byth yn cael mynd i'r awyr agored er y gellir eu labelu'n gyfreithlon yn adar "maes" hyd yn oed o dan y rhanddirymiad presennol.

Casglwyd barn defnyddwyr trwy'r arolwg a'r broses ymgynghori a ddisgrifir uchod. O ddadansoddi'r ymatebion, cafwyd digon o dystiolaeth bod cefnogaeth i'r newidiadau a gynigir, gyda mwyafrif y defnyddwyr ddim yn mynegi unrhyw bryderon. Os cedwir at y polisi presennol, nodwyd y risgiau canlynol:

- **Tarfu ar y diwydiant** – Ar hyn o bryd mae busnesau Cymru yn masnachu'n ddi-fwlch gyda gweddill y DU gyda llawer o gig dofednod yn cael ei fasnachu ar draws y ffiniau. Pe bai polisi Cymru yn anghyson

â gwledydd eraill y DU a'r UE, gallai ychwanegu cymhlethdod a chost at y fasnach hon. Mae sylwadau gan y diwydiant yn pwysleisio'r aflonyddu hwn ar y gadwyn gyflenwi a'r costau uwch a phrinder. Byddai'n cael effaith arwyddocaol ar ddefnyddwyr yn ogystal ag ar broffidioldeb a hyfywedd busnesau Cymru sy'n buddsoddi mewn cynhyrchu cig dofednod maes.

- **Beirniadaeth gan y diwydiant** – mae cyrff y diwydiant dofednod yn unfrydol yn eu cefnogaeth i'r newid. Pe bai'r polisi presennol yn parhau yng Nghymru yn unig, gallai Llywodraeth Cymru wynebu niwed i'w henw da os yw'n cael ei gweld yn gweithredu'n groes i argymhellion cynrychiolwyr y diwydiant yng Nghymru.
- **Marchnata cig dofednod yng Nghymru** – Ni fyddem yn gallu rheoli unrhyw wahaniaeth yn y rheoliadau marchnata pan fydd cig dofednod o Loegr yn ymuno â'r gadwyn fwyd yng Nghymru. Byddai'r ieir sydd dan orchymyn i'w cadw dan do yn Lloegr yn parhau i gael eu marchnata fel ieir maes, yn wahanol i ieir Cymru, er gwaethaf yr un safonau cynhyrchu, a byddai ieir Cymru'n cael eu hail-labelu neu eu hailbecynnu pe bai gorchymyn yn parhau mewn grym.
- **Achosion o Ffliw'r Adar** – Mae arwydd y gallai'r firws esblygu i heintio mwy o rywogaethau o adar ac addasu i amodau amgylcheddol sy'n golygu y gallai achosi heintiau yn y diwydiant dofednod yn gynt ac am fwy o amser na'r disgwyl. Efallai na fyddai'r rheoliadau marchnata presennol yn diwallu anghenion cynyddol diwydiant dofednod Cymru, a allai fod yr unig wlad yn y DU fydd yn gorfod marchnata'n wahanol os eir heibio terfyn y rhanddirymiad.

**Opsiwn 2 (Opsiwn a ffefrir) -** Cynghorir o blaid cysondeb, gyda Lloegr a'r Alban ar fin newid eu rheoliadau, a'r UE eisoes wedi gwneud**.** Mae tystiolaeth yr ymatebion i'r ymgynghoriad a'r arolwg defnyddwyr yn dangos nad oes digon o dystiolaeth i argymell y dylai Cymru ddilyn trywydd gwahanol. Byddai'r risgiau a restrir yn **Opsiwn un** yn cael eu lleihau pa bai Cymru'n dilyn trywydd cyson â'r UE a gweddill y DU. Byddai'r cydgysylltu hwn yn galluogi cynhyrchwyr Cymru i barhau i weithredu ar faes chwarae masnachol gwastad. Byddai'r rheoliadau marchnata yn gyson hefyd â'r strategaeth Rheoli Clefydau Adar ac yn ennyn hyder cynhyrchwyr pan fydd y Prif Filfeddyg yn gorchymyn cadw dofednod dan do.

Er mwyn lleddfu pryderon y gallai'r newidiadau arfaethedig gamarwain defnyddwyr, bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda Defra, manwerthwyr a'r diwydiant i annog negeseuon cyson pan geir achos o ffliw'r adar a dysgu defnyddwyr am unrhyw newidiadau. Fel y dywedir uchod, mae llawer o ieir bwyta yn cael eu lladd cyn eu bod yn 12 wythnos oed ac yn cael eu cadw dan do ac er hynny, yn gallu cael eu labelu'n gyfreithiol fel ieir "maes" o dan y rhanddirymiad.

Byddai'r newid hwn yn gyson â'r newid i ddileu'r rhanddirymiad o 16 wythnos ar gyfer wyau yng Nghymru ym mis Chwefror 2025 trwy ddiwygio deddfwriaeth 589/2008.

**Opsiwn 3 –** Newid deddfwriaeth 543/2008 ar gyfer Cig Dofednod i estyn cyfnod y rhanddirymiad. Mae'n bosibl estyn cyfnod y rhanddirymiad, er enghraifft i 16 wythnos neu i 18 wythnos neu fwy. Fodd bynnag, mae'r duedd mewn ffliw adar yn awgrymu y byddai perygl o hyd, os na fydd y rhanddirymiad y gofynnir amdano'n sylweddol fwy nag ar hyn o bryd, y bydd angen estyn eto y gorchmynion i gadw ieir dan do a wneir yn gynharach yn y flwyddyn. Mae'n bwysig cofio fodd bynnag y byddai polisi o'r fath yn golygu bod Cymru yn parhau'n anghyson â gwledydd eraill. Dyna yw craidd y mater i'r diwydiant – byddai'r risg o hyd y byddai busnesau Cymru dan anfantais yn y farchnad. Nid ydym yn credu bod mantais i'r polisi hwn ac felly, nid ydym wedi cyflwyno'r opsiwn hwn ar gyfer ei ddadansoddi ymhellach.

## 9 Costau a manteision

Bydd yr adran hon yn ystyried costau a manteision gweithredu'r OS hwn, sef dileu'r terfyn amser 12 wythnos ar randdirymiad, o'i gymharu â'r opsiwn gwneud dim. Mae'r costau a'r manteision posibl o ganlyniad i weithredu'r Offeryn Statudol hwn wedi cael eu categoreiddio yn effeithiau ag iddynt werth ariannol ac effeithiau heb werth ariannol.

### 9.1 Costau

Mae prif gostau posibl o ganlyniad i ddileu terfyn 12 wythnos y rhanddirymiad wedi cael eu hamlinellu fel a ganlyn.

9.2.1 Costau anariannol

Un math o gost a allai ddeillio o weithredu'r OS yw'r posibilrwydd y bydd defnyddwyr yn newid eu patrymau prynu pan fyddant yn cael gwybod am y newidiadau i labelu. Mae'n debyg mai'r rhai sy'n gwerthfawrogi safonau lles anifeiliaid uwch a fyddai'n gwneud hyn, ac wrth gael gwybod am y newidiadau deddfwriaethol gallent osgoi cig dofednod sydd wedi'u labelu'n gig dofednod maes, gan wybod bod yr ieir wedi cael eu cadw dan do yn ystod y mesurau i orfodi cadw'r adar o dan do. Gallai'r newid i'r rheoliad effeithio hefyd ar hyder defnyddwyr yn y brand cig dofednod domestig, a allai gael effaith arwyddocaol ar y diwydiant cig dofednod yng Nghymru. Er nad yw'r union ffigurau ar gyfer cynhyrchwyr cig dofednod maes wedi'u cyhoeddi, mae gan Gymru enw da am gynhyrchu lles uchel. Yn 2024, cynhyrchwyd gwerth tua £55 miliwn[4] o gig dofednod yng Nghymru a gwerth cynhyrchiant cig dofednod y DU oedd £3.54 biliwn[5]. Gallai unrhyw wahaniaeth yn y

[4] Allbwn ac incwm cyfun amaethyddol: 2024 [HTML] | LLYW.CYMRU
[5] DEFRA Agriculture in the united Kingdom 2024, Chapter 8: Livestock

safonau labelu danseilio safle cynhyrchwyr Cymru yn y farchnad a lleihau ffydd defnyddwyr.

Nododd yr Arolwg o Ddefnyddwyr y byddai lawer gwell gan ddefnyddwyr Cymru brynu cig dofednod maes. Pan ofynnwyd iddynt pa mor aml y byddent yn dewis cig maes, atebodd 29% eu bod 'bob amser' yn dewis cig dofednod maes, a dywedodd 25% eu bod yn gwneud hynny'n 'aml'. O'r rheini, dwedodd y mwyafrif, sef 78%, eu bod yn prynu eu cig dofednod maes mewn archfarchnad. O ran labelu, dywedodd 24% o'r ymatebwyr nad oedd yn dderbyniol parhau i labelu a gwerthu'r cig fel cig dofednod maes heb ail-labelu neu ail-becynnu i ddangos bod yr ieir wedi cael eu cadw o dan do am gyfnod estynedig. Pan ofynnwyd iddynt a fyddai'r newid a gynigir i'r rheoliadau yn effeithio ar eu hymddygiad prynu, dywedodd 27% y byddai'n gwneud, ac o'r rheini, nododd 62% y byddent yn prynu cig dofednod maes yn llai aml.

Er ei bod yn anodd asesu'n gywir sut y byddai newid y rheoliadau'n effeithio ar alw defnyddwyr yn ymarferol, mae canfyddiadau'r arolwg hwn yn nodi, er y gallai lleiafrif bach fod â phryderon, fod y rhan fwyaf o ddefnyddwyr at ei gilydd yn derbyn, yn ystod achosion o ffliw adar, y dylid caniatáu parhau i labelu cig ieir sydd wedi cael eu cadw o dan do yn gig maes, dros dro, nes y bydd y risg o'r clefyd yn lleihau.

### 9.2.2 Costau ariannol

Gan gymryd y bydd archfarchnadoedd yn parhau i reoli prisiau cig dofednod i'w hatal rhag gostwng os yw'r galw yn gostwng, ni ddisgwylir i ddileu'r terfyn amser y rhanddirymiad gael fawr o effaith ar y sector.

Gan fod y cynigion i newid y ddeddfwriaeth yn ffurfioli amodau a oedd cyn hynny ond yn cael eu harfer o dan amgylchiadau eithriadol, ni ddisgwylir y bydd busnesau'n wynebu unrhyw gostau ychwanegol sylweddol pan gaiff terfyn amser y rhanddirymiad ei ddileu. Disgwylir i unrhyw gostau a ysgwyddir fod yn fach a byddant yn debygol o godi o dasgau gweinyddol fel dysgu'r canllawiau newydd. Disgwylir mai dim ond am y flwyddyn gyntaf y bydd yn rhaid ysgwyddo'r gost hon.

Amcangyfrifwyd y costau hyn gan ddefnyddio'r fethodoleg yn **Atodiad A** ac fe'u dangosir yn Nhabl 1.

**Tabl 1. Costau – Costau ariannol i fusnesau**

| | 2025 |
|---|---|
| Costau Ymgyfarwyddo | £37,400 |

### 9.3 Manteision

Nod yr offeryn yw cael gwared ar derfyn 12 wythnos y rhanddirymiad. Byddai hyn yn lleihau costau i fusnesau drwy gael gwared ar dreuliau a

fyddai fel arall yn codi o ganlyniad i ddilyn y fframwaith rheoleiddio 'busnes fel arfer' presennol (Opsiwn 1). Bydd y rheoliadau presennol sy'n cynnwys terfyn 12 wythnos y rhanddirymiad yn cael eu defnyddio'n llinell sylfaen i asesu manteision y newidiadau arfaethedig o dan Opsiwn 3, sef 'Dileu terfyn 12 wythnos y rhanddirymiad'.

Mae'r prif arbedion, sef y prif fanteision, wedi'u hamlinellu isod. Mae'r amcanestyniadau hyn yn seiliedig ar y rhagdybiaeth y byddai Cymru yn wynebu achosion o HPAI sy'n golygu y bydd angen mesurau i orfodi cadw adar o dan do yn y blynyddoedd nesaf.

### 9.3.1 Manteision ariannol

Dim gofyniad i osod sticeri ar becynnau

O dan y ddeddfwriaeth bresennol, rhaid ail-labelu cig dofednod sydd wedi'i labelu'n gig maes fel cig dofednod safonol unwaith yr eir heibio terfyn 12 wythnos y rhanddirymiad ar gyfer mesurau cadw ieir dan do, fel y nodir yn Rheoliad 543/2008[6]. Yn hanesyddol, roedd yn ofynnol i gynhyrchwyr roi sticer ar becyn i guddio'r dynodiad 'maes'. Fodd bynnag, yn y blynyddoedd diwethaf, mae llawer o fusnesau wedi bod yn argraffu ag inkjet yn uniongyrchol ar ddeunydd pacio i argraffu "Cig Dofednod Safonol" i leihau costau gweithredol. Mae'r dull hwn wedi cael ei ddefnyddio o dan amgylchiadau eithriadol, ond mae gosod sticer yn dal i fod yn ofyniad rheoleiddiol lle nad yw argraffu uniongyrchol yn ymarferol neu'n cael ei ganiatáu.

Amcangyfrifir mai £27,600 fydd gosod sticer ar becynnau cig dofednod yng Nghymru yn 2026. Seilir hyn ar y canlynol:

- Amcangyfrifir bod 21.2 miliwn[7] o becynnau o gig dofednod yn cael eu gwerthu bob blwyddyn yng Nghymru.
- Mae data hanesyddol yn dangos yr aed heibio terfyn 12 wythnos y rhanddirymiad ar gyfartaledd o 4.5 wythnos y flwyddyn, gan effeithio ar 8.7% o'r cynhyrchiant blynyddol[8].
- O ganlyniad, bu'n rhaid rhoi sticer ar oddeutu 1.84 miliwn o becynnau. Mae'r diwydiant yn amcangyfrif bod gosod sticer yn costio 1.5c y pecyn[9].
- Y swm: 1,844,400 o becynnau × £0.015 = £27,666, wedi'i dalgrynnu i £27,600.

Mae'r ffigurau hyn yn cryfhau'r achos o blaid cysoni'r rheoliadau er mwyn osgoi costau ail-labelu diangen a sicrhau cysondeb yn holl gadwyni cyflenwi cig dofednod y DU.

---

[6] Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 543/2008 dyddiedig 16 Meh 2008 sy’n gosod rheolau manwl ar gyfer cymhwyso Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1234/2007 o ran safonau ar gyfer marchnata cig dofednod.
[7] DEFRA United Kingdom Poultry and poultry meat statistics 2025
[8] Safonau Marchnata Wyau Maes a Chig Dofednod
[9] Safonau marchnata cig dofednod 2024 - GOV.UK

**Tabl 2. Manteision – osgoi cost gosod sticeri ar becynnau**

| | 2025 | 2026 | 2027 | 2028 | 2029 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cost gosod sticeri ar becynnau** | £27,600 | £27,600 | £27,600 | £27,600 | £27,600 |

Er gwaetha'r rhagolygon y bydd mwy o gig dofednod yn cael ei fwyta oherwydd y twf yn y boblogaeth, disgwylir i nifer y pecynnau y bydd angen eu hail-labelu ostwng bob blwyddyn. Hynny oherwydd: Newid yn ymddygiad defnyddwyr, gyda rhai defnyddwyr o Gymru yn dewis prynu cig dofednod yn llai aml yn ystod cyfnodau cadw dofednod dan do, yn enwedig pan fyddant wedi'u labelu yn "gig dofednod safonol." Disgwylir y caiff cyflwyno brechlyn Ffliw Adar effeithiau pontio erbyn 2028–2029, gan leihau'r angen am gadw dofednod dan do am gyfnod hir ac am ail-labelu. Er bod effaith ariannol y dylanwadau hyn yn anodd ei mesur, tybir am 5 mlynedd y cyfnod arfarnu, y bydd yn fach iawn, ac felly rhannwyd gwerth y costau arbed yn gyfartal ar draws pob blwyddyn.

Cewch weld manylion ychwanegol ynghylch dylanwad y ffactorau hyn ar y duedd hon yn Atodiad B.

### 9.3.2 Manteision anariannol

Ymhlith y costau ychwanegol a fyddai'n cael eu hosgoi yw'r refeniw y bydd busnesau o bosibl yn ei golli oherwydd y gofyn arnynt i israddio eu cig dofednod maes yn gig safonol. Er o dan yr opsiwn hwn bod y colledion hyn yn gostau sy'n cael eu hosgoi, byddai eu cyfrifo'n gywir yn anodd iawn. Mae Atodiad B yn cynnig syniad o'r costau posibl sy'n gysylltiedig â rhai o'r ffactorau canlynol. Cynhyrchwyr yn colli eu prisiau premiwm a'r gallu i allforio eu cig dofednod fel cig dofednod maes i wledydd y tu allan i'r UE. Neu gostau cynhyrchu yn aros yr un peth er bod cig dofednod yn cael ei labelu'n gig dofednod safonol a bod cynhyrchwyr yn parhau i ysgwyddo cost cynnal systemau cig dofednod maes pan fydd mesurau i orfodi cadw adar o dan do.

Hefyd, pan nad yw Gweinidogion wedi rhoi esemptiadau i argraffu ag inkjet, mae busnesau wedi defnyddio bocsys cig dofednod sydd wedi'u labelu eisoes â labeli cig dofednod safonol er mwyn cydymffurfio â rheoliadau marchnata. Weithiau, gallai hyn arwain at anawsterau logistaidd fel oedi wrth ddod o hyd i ddeunyddiau pecynnu priodol, oedi wrth fynd yn ôl i gynhyrchu bocsys ar gyfer cig dofednod maes, ansicrwydd ynghylch pa mor hir y byddai angen y bocsys, a chostau gwastraff deunyddiau nas defnyddiwyd.

Nododd ymatebwyr i'r ymgynghoriad fod rhai canolfannau pecynnu sy'n prynu cig dofednod o bob rhan o'r DU wedi rhybuddio cynhyrchwyr y gallent wrthod cig dofednod o Gymru pan roddir gorchymyn i gadw adar o dan do yn y dyfodol os na chaiff y newid a gynigir ei dderbyn. Hynny

oherwydd heriau logistaidd wrth bacio cig dofednod o Gymru ar wahân. Nid oes gan y cyfleusterau pacio'r adnoddau i wneud hynny. Gallai hynny gynyddu pris cig dofednod o Gymru neu at brynu cig dofednod o Loegr neu fewnforion o'r UE yn ei le. Er eu bod wedi cael eu cynhyrchu o dan yr un amodau, caniateir parhau i'w marchnata fel cig dofednod maes.

Wrth ystyried yr opsiwn i 'estyn terfyn amser presennol y rhanddirymiad' **(Opsiwn 3)**, byddai disgwyl i'r costau cysylltiedig a'r arbedion a amlinellir uchod fod yn debyg i senario 'busnes fel arfer' **(Opsiwn 1)**, gydag ychydig o amrywiadau yn unig. Byddai angen o hyd i fusnesau ymgyfarwyddo â'r newidiadau i'r rheoliadau. Byddai'r gofyniad i osod sticeri dros y labeli ar ddeunyddiau pecynnu a cholli'r pris premiwm am gig dofednod maes yn cael eu gohirio am ychydig o wythnosau'n unig. Ar ben hynny, mae risg o hyd y gallai achos o ffliw adar bara'n hwy na'r terfyn amser newydd a gyflwynir, a gallai hyn arwain at yr un problemau ag o'r blaen.

### 9.4 Alldro cyffredinol

Fel y nodwyd cynt, disgwylir i'r costau sy'n gysylltiedig ag ymgyfarwyddo fod yn gostau untro a ysgwyddir yn ystod y flwyddyn y caiff yr offeryn ei weithredu. Fodd bynnag, disgwylir i'r costau sy'n cael eu hosgoi o ganlyniad i beidio â gorfod gosod sticeri ar becynnau bara am flynyddoedd i ddod (er ei bod yn bosibl y gallai'r fantais hon leihau yn y tymor hwy). Er gwaethaf hyn, mae'n amlwg y bydd manteision dileu terfyn amser y rhanddirymiad **(Opsiwn 2)**, yn parhau ar ôl y flwyddyn gychwynnol. Pan fydd cost gosod sticeri ar becynnau wedi cael eu tynnu oddi wrth gost ymgyfarwyddo, bydd arbedion net dros y cyfnod pum mlynedd, gan ddangos bod y manteision yn drech na'r costau. Mae costau a manteision wedi cael eu disgowntio gan ddefnyddio cyfradd ddisgowntio ganolog Trysorlys EF, sef 3.5%. Y gwerth net presennol (NPV) dros y cyfnod gwerthuso pum mlynedd yw tua £91,800.

**Tabl 3. Alldro cyffredinol**

| | **2025** | **2026** | **2027** | **2028** | **2029** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Costau – gros** | | | | | |
| Ymgyfarwyddo | £37,400 | £0 | £0 | £0 | £0 |
| **Manteision – gros** | | | | | |
| Osgoi costau sticeri ar becynnau | £27,645 | £27,645 | £27,645 | £27,645 | £27,645 |
| | | | | | |
| **Manteision net – cost** | -£9,755 | £27,645 | £27,645 | £27,645 | £27,645 |

## 10 Risgiau ac ansicrwydd

Mae risgiau yn y dadansoddiad yn deillio o'r ansicrwydd a'r heriau niferus wrth gyfrifo yn gywir gostau y dylanwedir arnynt gan ffactorau amrywiol. Mae ystyriaethau allweddol yn cynnwys y tebygolrwydd y bydd achosion o ffliw adar yn y dyfodol yn para yn hwy na'r rhanddirymiad 12 wythnos, effaith anrhagweladwy ymatebion defnyddwyr ar y galw am gig dofednod maes pan osodir mesurau i orfodi cadw adar o dan do, a'r goblygiadau ariannol os bydd polisi Cymru yn wahanol i weddill y DU a'r UE. Newidynnau a allai gael effaith sylweddol ar y manteision amcangyfrifedig.

## 11 Casgliad

Er gwaethaf yr ansicrwydd hwn, y gellir ei ddisgwyl wrth wneud amcanestyniadau sy'n gysylltiedig â chlefydau epidemiolegol fel ffliw adar, amcangyfrifir y bydd manteision net sy'n gysylltiedig â'r opsiwn a ffefrir i ddileu terfyn 12 wythnos y rhanddirymiad o £100,800 dros pum mlynedd (£91,800 yn ôl gwerthoedd heddiw). Mae'r arbedion hyn yn drech na'r costau untro posibl o ymgyfarwyddo, a gallent roi digon o hyder i fwrw ymlaen â'r diwygiad hwn i'r rheoliadau.

## 12 Adolygu ar ôl gweithredu

Ni wneir adolygiad ffurfiol gan na fydd y diwygiad i'r rheoliadau'n ychwanegu dim at faich rheoleiddio busnesau na'r sector gwirfoddol. Fodd bynnag, bydd Llywodraeth Cymru yn monitro effaith y newid deddfwriaethol hwn fel rhan o'i gwaith parhaus i oruchwylio'r diwydiant cig dofednod yn ystod achosion o ffliw adar.

## 13 Asesiadau o'r Effaith

### 13.1 Asesu'r Gystadleuaeth

Mae prawf hidlo'r gystadleuaeth yn awgrymu nad oes risg o effeithiau niweidiol ar gystadleuaeth o fewn y diwydiant cig dofednod o ganlyniad i'r newid deddfwriaethol a argymhellir. Ar ben hynny, ni leisiwyd unrhyw bryderon sylweddol gan y diwydiant ynghylch cystadleuaeth o ganlyniad i'r newidiadau arfaethedig, yn ystod yr ymgynghoriad ffurfiol.

### 13.2 Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant

Ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol ar Hawliau Plant, yn ystod yr ymgynghoriad â'r cyhoedd na'r trafodaethau â rhanddeiliaid, nac wrth

baratoi'r asesiad hwn. Yn unol ag adran 1 o Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, mae swyddogion o'r farn nad yw'r offeryn yn arwain at bryderon sy'n ymwneud â hawliau plant.

# 14 Atodiadau

## 14.1 **Atodiad A – Costau**

15.1.1Costau Ymgyfarwyddo[10].

Oherwydd diffyg data empirig, seilir amcangyfrifon costau ymgyfarwyddo ar ragdybiaethau rhesymol. Mae'r costau hyn yn adlewyrchu'r amser sydd ei angen ar randdeiliaid y diwydiant i ddeall a gweithredu'r newid i'r rheoliadau, gan gynnwys diweddariadau gweinyddol ac addasiadau gweithredol. Byddai hyn yn cynnwys y cyfnod cychwynnol, wedi'i gyfrif mewn oriau/cyflogau, i aelodau'r diwydiant ddeall a gweithredu'r diweddariadau. Tybir y byddai angen tua 6 awr ar swyddog rheng ganol i ddod yn gyfarwydd â'r newidiadau, ar gyflog o £27.50 yr awr. Gan gynnwys gorbenion, amcangyfrifir y bydd hyn yn costio £200 y busnes. Ar sail y data diweddaraf sydd ar gael, amcangyfrifir y canlynol:

- 138 o gynhyrchwyr sy'n cynhyrchu ieir yn fasnachol
- 28 o fridwyr tyrcwn (gan gynnwys 3 ar raddfa fasnachol)
- Nifer fach o gynhyrchwyr gwyddau
- 11 o brosesyddion dofednod yn unig
- Ynghyd â'r prif asiantau a chynrychiolwyr, gan ddod â chyfanswm nifer y rhanddeiliaid perthnasol i ryw 187.

Dyna roi amcangyfrif diwygiedig o gyfanswm y gost o £37,400 (187 o fusnesau × £200). Disgwylir mai dim ond ym mlwyddyn gweithredu'r offeryn y bydd angen ysgwyddo'r gost hon.

## 14.2 Atodiad B – Manteision

Mae'r canlynol yn arbedion sy'n deillio o osgoi costau damcaniaethol i gyflenwyr y byddent wedi'u hysgwyddo pe bai gofyniad cyfreithiol arnynt i israddio eu cig dofednod maes yn gig dofednod safonol ar ôl 12 wythnos y rhanddirymiad.

14.2.1 Costau gosod sticeri ar becynnau[11]

[10] SYG - Employee earnings in the UK 2024 - - Mae'r gyfradd gyflog o £27.50 yr awr a ddefnyddir yn yr amcangyfrif costau ymgyfarwyddo yn gyson â'r cyfraddau meincnodi sy'n deillio o'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (ASHE). Er mai'r cyflog canolrifol fesul awr ar gyfer gweithwyr llawn amser yn y DU oedd £18.64 ym mis Ebrill 2024, mae'r gyfradd uwch yn adlewyrchu rôl swyddog neu reolwr rheng ganol yn y sector cynhyrchu bwyd neu amaethyddol, gan gynnwys gorbenion safonol.

[11] Dadansoddiad is-sector cyw iâr Llywodraeth Cymru (2014).pdf

Mae amcangyfrif o gost gosod sticeri ar becynnau ar gyfer 2026 yn seiliedig ar y dybiaeth na fydd y prisiau a ddarparwyd gan y diwydiant yn 2025 yn newid. Mae arbedion cost sy'n deillio o osgoi gosod sticeri ar becynnau cig dofednod wedi cael eu hamcangyfrif yn unol â'r data swyddogol a rhagdybiaethau canlynol.

- Cafodd gwerth £55 miliwn o gig dofednod ei gynhyrchu yng Nghymru yn 2024[12].
- Gan ddefnyddio pris manwerthu cyfartalog cig dofednod yn 2024, sef £3.79/kg[13], a rhagdybio bod pecyn ar gyfartaledd yn pwyso 0.5kg, amcangyfrif bod 29,026,455 o becynnau o gig dofednod wedi cael eu gwerthu yng Nghymru.
- Gan gymryd bod amcangyfrif o 80% yn cael ei brosesu mewn canolfannau pacio, nifer y pecynnau perthnasol yw 23,221,164.
- Nifer cyfartalog yr wythnosau lle yr aed dros derfyn amser 12 wythnos y rhanddirymiad bob blwyddyn, rhwng 2021–22 a 2023–24 yw 4.5 wythnos, sef 8.7% o flwyddyn galendr. Mae lluosi 23,221,164 â ffactor o 0.087 yn golygu yr effeithiwyd ar 2,020,242 o becynnau cig dofednod, a thybir bod sticeri wedi cael eu gosod ar y rhain.
- Gan ddefnyddio ffigurau'r diwydiant ei bod yn costio 1-2c i osod sticer ar becyn, amcangyfrifir mai cost sylfaenol gosod sticeri yw 2,020,242 x 0.015 = £30,304 y flwyddyn (£30,300 wedi'i dalgrynnu i'r 100 agosaf).

14.2.2 Ffactorau sy'n dylanwadu ar nifer y pecynnau bob blwyddyn

Er gwaethaf y ffaith y disgwylir gweld cynnydd graddol yn y cig dofednod a fwyteir yng Nghymru, o dan ddylanwad twf yn nifer yr aelwydydd a'r boblogaeth, tybir y bydd nifer y pecynnau cig dofednod yn gostwng yn raddol, oherwydd y dylanwadau posibl canlynol, ac o ganlyniad bydd gwerth yr arbedion cost sy'n gysylltiedig â gosod sticeri'n gostwng:

- **Galw ymhlith defnyddwyr:** Mae'n bosib y byddai gostyngiad yn y galw am gig dofednod maes wrth i ddefnyddwyr Cymru ddewis prynu cig dofednod maes yn llai aml, gan adlewyrchu'r 24% o ddefnyddwyr o Gymru sy'n anghytuno y dylai cig dofednod gael ei alw'n gig maes os yw'r rhanddirymiad yn para mwy na 12 wythnos. Mae'r gostyngiad hwn yn cael ei gadarnhau wrth archwilio prisiau manwerthu cig dofednod mewn archfarchnadoedd, yn ystod y cyfnodau cadw adar o dan do yn 2021–22 a 2022–23, pan welwyd gostyngiad ym mhris cyfartalog cig dofednod maes dros gyfnod o ddwy flynedd wrth i ddefnyddwyr ymateb i'r cyhoeddiad y byddai'r rhanddirymiad 12 wythnos yn dechrau.

[12] Allbwn ac incwm cyfun amaethyddol 2024
[13] ONS Price Index 2025. Average price - Chicken: roasting, ovn ready, frsh/chilld, Kg (Nodyn: mae’r prisiau RPI/ONS swyddogol ar gyfer cyw iâr yn unig, nid pob math o gig dofednod.

- **Brechu:** Byddai cyflwyno brechlyn yn y blynyddoedd i ddod, y rhagwelir y bydd yn cael effaith bontio erbyn 2028–29 ac effaith lawn wedi hynny, yn dileu'r angen i gadw adar o dan do, ac o ganlyniad yn dileu'r angen i osod sticeri ar becynnau.

14.2.3 Colli'r pris premiwm wrth israddio cig dofednod[14]

Gellir amcangyfrif yr arbedion cost a geir o ganlyniad i gael gwared ar yr angen i israddio cig dofednod maes i statws cig sgubor (safonol) ar ôl i 12 wythnos y rhanddirymiad fynd heibio, trwy ddefnyddio data swyddogol Llywodraeth Cymru a rhagdybiaethau safonol:

- Rhwng 2021–22 a 2023–24, aed ar gyfartaledd dros derfyn y rhanddirymiad am 4.5 wythnos, sef 8.7% o'r flwyddyn galendr.
- Ar ôl cyfnod y rhanddirymiad, rhaid i gynhyrchwyr dynnu'r label "maes" a marchnata’r cig dofednod fel cig dofednod safonol, sydd fel arfer yn gwerthu am bris is.
- Cafodd gwerth £55 miliwn o gig dofednod ei gynhyrchu yng Nghymru yn 2024. Gan ragdybio bod pecyn o gig dofednod maes yn gwerthu am £1.45, mae hynny gyfwerth â chynhyrchu rhyw 37.7 miliwn o becynnau o gig dofednod bob blwyddyn.
- Amcangyfrifir bod £0.37 y pecyn o wahaniaeth rhwng pris cig dofednod maes a phris cig safonol, a chan gymhwyso ffactor 8.7% y dirymiad, collir cyfanswm o ryw £1,296,200 o refeniw dros 4.5 wythnos.
- Mae hyn yn cynnwys colli £20,000 yr wythnos o refeniw allforio, ar sail adborth gan y diwydiant.
- Y golled wythnosol ar gyfartaledd, gan gynnwys yr effaith ar allforion yw tua £288,000.
- Amcangyfrifir bod cynhyrchu cig dofednod maes 17% yn ddrutach na chynhyrchu cig safonol oherwydd systemau cartrefu, bwyd a gofynion bioddiogelwch. Mae’r costau hyn yn parhau yn ystod gorchmynion cadw dan do, hyd yn oed pan gollir y prisiau premiwm.

## 14.4 Atodiad C – Ffigurau

Tabl C.1 Mathau o Gig Dofednod[15]

| System Cynhyrchu | Cyfanswm Cyfran o'r Farchnad (DU – Defra) | Cyfran y Sector Manwerthu (DU – Kantar) |
|---|---|---|
| **Safonol (Confensiynol)** | 56% | 47% |
| **Maes** | 41% (gan gynnwys ~2% organig) | 51% (gan gynnwys ~1.5% organig) |
| **Organig** | ~2% | ~1.5% |

[14] Allbwn ac incwm cyfun amaethyddol: 2024
[15] DEFRA United Kingdom Poultry and Poultry Meat Statistics - GOV.UK

| Arall (e.e. wedi'u bwydo ag india-corn) | ~1% | ~0.5% |
|---|---|---|

- Cig dofednod safonol sy'n dal i ddominyddu ond mae ei gyfran o'r farchnad gyfan wedi cynyddu ychydig i 56%, tra bod ei gyfran o’r farchnad fanwerthu wedi gostwng i 47%.
- Mae gan ddofednod maes gyfran amlwg o 51% yn y sector manwerthu ond bu gostyngiad bach yn ei gyfran o'r farchnad gyfan i 41%.
- Mae categorïau organig ac arbenigol eraill yn dal i fod yn sefydlog gydag ond newidiadau bach yn eu cyfran o'r farchnad.
- Mae'r ffigurau hyn yn adlewyrchu tueddiadau yn y galw ymhlith defnyddwyr a chyfansymiau cynhyrchu, fel y dangosir gan ddata cywion a lladd.

**Tabl C.2 Prisiau Manwerthu Cig Dofednod**

Mae data diweddar gan Defra a ffynonellau'r diwydiant ar gyfer 2024 yn dangos bod mwy o gig dofednod yn cael ei gynhyrchu a'i fwyta yn y DU, gyda chynhyrchiant domestig yn fwy na 2 filiwn tunnell am y tro cyntaf.[16]

Er nad yw Cyngor Dofednod Prydain wedi cyhoeddi dadansoddiad manwl o brisiau manwerthu yn ôl dull cynhyrchu, mae tueddiadau'r diwydiant yn awgrymu:

| Math o gig dofednod | Amcangyfrif o Ystod Prisiau Manwerthu (2023–2024) |
|---|---|
| Cig dofednod maes | £4.80 – £5.20/kg |
| Cig dofednod safonol | £3.80 – £4.20/kg |
| Cig dofednod organig | £6.00 – £6.50/kg |

Mae'r ffigurau hyn yn adlewyrchu prisiau ar gyfartaledd mewn archfarchnadoedd a gallant amrywio yn ôl rhanbarth a manwerthwr.

**Tabl C.3 Nifer yr wyau sy'n cael eu prosesu gan Ganolfannau Pecynnu yn y DU yn ôl Gwlad**
(Miliwn o ddwsinau)

| Blwyddyn | Cymru a Lloegr | Yr Alban | Gogledd Iwerddon | Cyfanswm UK |
|---|---|---|---|---|
| 2021 | 651 | 122 | 170 | 943 |
| 2022 | 577 | 117 | 175 | 869 |
| 2023 | 522 | 126 | 182 | 830 |

[16] Record y DU ar gyfer cynhyrchu a bwyta cig dofednod yn 2024

Mae'r ffigurau hyn yn cynrychioli **cyfradd brosesu canolfan bacio**, sy'n cynnwys nifer wyau a chig dofednod[17].

[17] Ystadegau Dofednod a Chig Dofednod y Deyrnas Unedig 2023 - GOV.UK